**Rhif: 4**

| | |
| --- | --- |
| **Rhif y Cais:** | **C22/0327/16/AC** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **08/04/2022** |
| **Math y Cais:** | **Amrywio Amod** |
| **Cymuned:** | **Llandygái** |
| **Ward:** | **Tregarth a Mynydd Llandygai** |
| **Bwriad:** | **Cais dan Adran 73 i amrywio amodau 1 a 3 ar gais cynllunio C16/1164/16/MW (Cais dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i benderfynu ar amodau dan adolygiad cyfnodol) i ymestyn yr amser ar gyfer cloddio a gweithio deunydd hyd at 2035, ymestyn yr amser i adfer y safle i 2037 ac addasu cynlluniau i wneud lle i estyniad arfaethedig i'r ardal sy'n cael ei gweithio ar hyn o bryd** |
| **Lleoliad:** | **Breedon, Chwarel y Penrhyn, Bethesda, LL57 4YG** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | **CANIATÁU GYDAG AMODAU** |

## 1. Disgrifiad:

1.1 Cais yw hwn dan Adran 73 Deddf Cynllunio 1990 i amrywio amodau 1 a 3 ar gais cynllunio C16/1164/16/MW (Adolygu Hen Hawliau Cynllunio Mwynau dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (ROMP)) i ymestyn cyfnod y gwaith cloddio llechi a gweithrediadau cysylltiol am dair blynedd, caniatáu mwy o amser i adfer y safle a diwygio cynlluniau i wneud lle i estyniad arfaethedig i'r ardal sy'n cael ei gweithio ar hyn o bryd.

1.2 Mae safle'r cais i'r de o dref Bethesda, a saif Parc Cenedlaethol Eryri yn union i'r de. Ceir mynediad cerbydol i'r safle ar hyd ffordd breifat sy'n arwain o'r B4409, Priffordd Gyhoeddus Dosbarth 2 at Bont y Tŵr. Mae safle'r cais yn cynnwys y chwarel yn ei chyfanrwydd a'i gweithrediadau; cloddio am fwynau (yn cynnwys ardal yr estyniad arfaethedig), tomenni gwastraff mwynau, prosesu, pentyrru, tynnu tomenni gwastraff mwynau hanesyddol, swyddfa'r safle/cyfleusterau lles, pont bwyso ac ardaloedd sydd wedi'u hadfer. Dan y caniatâd cynllunio cyfredol hwn (ROMP), dywed amod 1 y caiff yr holl weithrediadau hyn barhau hyd at 31/12/2032 gyda'r adferiad terfynol i gael ei gwblhau erbyn 31/12/2034. Byddai'r newid arfaethedig i'r amod yn newid dyddiad rhoi'r gorau i'r gwaith i 31/12/2035 a'r gwaith adfer i'w gwblhau erbyn 31/12/2037.

1.3 Nid yw’r datblygiad yn syrthio dan y disgrifiad a’r meini prawf a nodir yn Atodlen 1 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017. Fodd bynnag, mae’n rhaid i bob datblygiad sydd tu mewn i, neu'n agos at ardaloedd sy’n destun dynodiadau sensitif (SoDdGA, ACA, AGA a AHNE, Parciau Cenedlaethol ac ati) gael eu sgrinio am yr angen i gael AEA. O ystyried graddfa'r datblygiad arfaethedig a pha mor agos ydyw at ffin Parc Cenedlaethol Eryri, SoDdGA ac ACA Eryri roedd angen cyflwyno Asesiad Effaith Amgylcheddol llawn gyda’r cais hwn.

1.4 ***Mae'n bwysig nodi bod cais cynllunio ar wahân ar gyfer ymestyn yr ardal weithio wedi cael ei gyflwyno dan gyfeirnod C22/0336/16/MW***

## 2. Polisïau Perthnasol:

2.1 Mae Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â’r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys y Polisi Cynllunio Cenedlaethol a’r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r saith nod llesiant sydd yn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi’i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel sydd wedi’i nodi yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011-2026 a fabwysiadwyd ar 31 Gorffennaf 2017**

PS1: Yr Iaith Gymraeg a’r diwylliant Cymreig
PS 4: Trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd
TRA 2 Safonau Parcio
TRA 4: Rheoli ardrawiadau cludiant

PS 5: Datblygu Cynaliadwy
PS 6: Lliniaru effeithiau newid hinsawdd
PCYFF 1: Ffiniau datblygu
PCYFF 2: Meini Prawf Datblygu
PCYFF 3: Dylunio a siapio lle
PCYFF 4: Dylunio a thirweddu
PCYFF 6: Cadwraeth dŵr
PS 13: Darparu cyfleoedd ar gyfer economi ffyniannus
PS 19: Gwarchod a lle bo'n briodol gwella'r amgylchedd naturiol
AMG 2: Ardaloedd Tirwedd Arbennig
AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol
AMG 6: Gwarchod Safleoedd o Arwyddocâd Rhanbarthol neu Leol
PS 20: Diogelu a lle bo'n briodol gwella asedau treftadaeth
AT 1: Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig
AT 4: Diogelu safleoedd archeolegol nad ydynt wedi'u dynodi a'u gosodiad
PS 22: Mwynau
MWYN 1: Diogelu adnoddau mwynau
MWYN 3: Datblygiadau mwynau
MWYN 5: Cylchfeydd Rhagod o amgylch Safleoedd Mwynau
MWYN 9: Adfer ac ôl-ofal
Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a Chreu Cymunedau Ffyniannus a Chynaliadwy
Canllaw Cynllunio Atodol: Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040
Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11 - Chwefror 2021)

NCT Mwynau 1 - Agregau

Nodyn Cyngor Technegol 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur
Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn
Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth
Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygiad Economaidd
Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr amgylchedd hanesyddol

## 3. Hanes Cynllunio Perthnasol:

- C16/1164/16/MW 'Cais o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i benderfynu ar amodau dan adolygiad cyfnodol - Cyf. Caniatadau: C96A/0020/16/MW, C08A/0039/16/MW, C12/0874/16/MW, C15/1344/16/MW' – caniatawyd gydag amodau ar 03/02/2017.
- C15/1344/16/MW 'Cais o dan adran 73 i amrywio amod 2 ar ganiatâd cynllunio C04A/0519/16/MW i barhau gweithgareddau ar gyfer symud deunydd o domen rwbel chwarel – caniatawyd gydag amodau ar 21/06/2016.
- C13/0859/16/MW Cyfleuster ailgylchu gwastraff anadweithiol arfaethedig – caniatawyd gydag amodau ar 16/10/2013.
- C12/0874/16/MW 'estyniad ac adliniad arfaethedig o weithfeydd cloddio llechi gyda chynllun adfer cyfnodol' – caniatawyd gydag amodau ar 18/12/2012.

- C08A/0039/16/MW 'Cais o dan Adran 73 i newid amodau 5 ac 20 ar ganiatâd cynllunio rhif C96A/0020/16/MW, cynlluniau diwygiedig ar gyfer ardaloedd cloddio (rhannol ôl-weithredol) a chynllun monitro sŵn' – caniatawyd gydag amodau ar 23/04/2008.
- C04A/0519/16/MW 'Symud a phrosesu hyd at 650,000 tunnell y flwyddyn o agregau o domen rwbel chwarel tan 31 Rhagfyr 2015' – caniatawyd gydag amodau ar 31/05/2005.
- C96A/0020/16/MW 'Estyniad i chwarel, gwaredu gwastraff mwynol, adfer a gweithredoedd cysylltiol' – caniatawyd gydag amodau ar 26/06/1997.

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned Llandygai: | Yn cefnogi'r datblygiad. |
| Cyngor Tref Bethesda: | Dim gwrthwynebiad ac yn gefnogol o gynnal cyflogaeth leol. |
| Yr Uned Drafnidiaeth: | Cyfeiriaf at y cais uchod a dymunaf nodi nad wyf yn bwriadu gwneud argymhelliad gan nad yw'r datblygiad yn cael ei ystyried yn un sy'n cael effaith andwyol ar unrhyw briffordd, neu briffordd arfaethedig. |
| Uned Hawliau Tramwy Cyhoeddus: | Dros y blynyddoedd mae datblygiad a gweithgarwch Chwarel y Penrhyn wedi effeithio ar sawl llwybr cyhoeddus. Yn 2002, gwnaed gorchymyn i gau llwybrau rhif 46 a 50 yng Nghymuned Llandygai ar sail dros dro dan Adrannau 257 a 261 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i ganiatáu cynnal gwaith cloddio gyda chaniatâd. Parodd y gorchymyn hwn am 15 mlynedd ac ar ddiwedd y cyfnod roedd cwmni'r chwarel i fod i adfer llwybrau 46 a 50 yn unol â'r gorchymyn. Wrth i gyfnod y gorchymyn ddod i ben yn 2017, daeth i'r amlwg nad oedd cwmni'r chwarel mewn sefyllfa i adfer y ddau lwybr hyn wrth i'r gwaith cloddio barhau yn ardal y llwybrau.<br><br>Yn 2017, gwnaed gorchymyn pellach i ymestyn cyfnod cau llwybrau 46 a 50 fel rhan o gais cynllunio C16/1164/16/MW a gafodd ei gymeradwyo gydag amodau ar 03/02/2017. Dywed y gorchymyn hwn fod yn rhaid adfer llwybrau 46 a 50 yn unol â'r ddogfen erbyn 31/12/2034 fan hwyraf. Mae copi o'r gorchymyn wedi'i gynnwys gyda'r adroddiad.<br><br>I wneud yn iawn am ymestyn cyfnod y gorchymyn hyd at 31/12/2034, cytunwyd y dylid creu llwybr caniataol fyddai'n galluogi cerddwyr i fynd o Lôn Las Ogwen i dir agored Gwaen Gynfi. Cytunwyd y byddai'r rhan fwyaf o'r llwybr caniataol yn cadw at y trac a ddefnyddiwyd i gludo pobl i frig y weiren zip. Er fod y cytundeb ar gyfer y llwybr wedi cael ei gytuno rhwng y Cyngor, perchennog y chwarel a chwmni Zip World Ltd, mae peth gwaith i'w wneud eto ar y ddaear cyn y gellir agor llwybr caniataol i'r cyhoedd. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn cael ei cwblhau yn yr wythnosau |

| | |
|---|---|
| | nesaf. Mae'r cytundeb hwn yn parhau hyd at 31/12/2034.<br><br>Fel rhan o gais C22/0327/16/AC, mae'r ymgeisydd yn cyflwyno ei achos i ymestyn cyfnod adfer y safle hyd at 31/12/2037. Felly, disgwylir i'r ymgeisydd: -<br><br>• wneud cais i'r Uned Gefn Gwlad a Mynediad am Orchymyn i ymestyn cyfnod cau llwybrau 46 a 50 hyd y dyddiad hwnnw.<br><br>• talu'r costau cyfreithiol, gweinyddol a'r costau hysbysebu sy'n gysylltiedig â gorchymyn o'r fath.<br><br>• cytuno i ymestyn cyfnod y cytundeb i gael llwybr caniataol hyd at 31/12/2037. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru: | **Ail ymateb dyddiedig 07/10/2022:**<br><br>Diolch am ymgynghori â CNC ar asesiad eich Awdurdod dan Reoliad 63, Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Fe wnaethom dderbyn yr asesiad ar 23 Medi 2022.<br><br>Cytunwn gyda chasgliadau'r ARhC, sef na fydd unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safle ACA Eryri yn sgil yr estyniad arfaethedig i'r chwarel.<br><br>Fodd bynnag, rydym yn eich atgoffa o'n hamodau yn ein hymateb dyddiedig 1 Mehefin 2022, sydd ynghlwm. Mae'n rhaid sicrhau'r amodau hyn yn y caniatâd cynllunio er mwyn bod yn siŵr na fydd unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y safle. Byddem yn gwrthwynebu'r cais cynllunio pe bai'r amodau hyn heb eu sicrhau.<br><br>*Mae'r amodau a argymhellir, a gyflwynwyd fel rhan o'r ymateb cyntaf, yn parhau'n ddilys*<br><br>**Ymateb cyntaf dyddiedig 01/06/2022:**<br><br>Mae gennym bryderon am y cais fel y'i cyflwynwyd. Er hynny, rydym yn fodlon y gellir goresgyn y pryderon hyn drwy osod yr amodau isod ar unrhyw ganiatâd cynllunio a roddir.<br>**Amodau 1 - 2: Safleoedd Gwarchodedig**<br><br>**Amod 3: Tirwedd**<br>Dalier sylw, heb gynnwys yr amodau hyn byddem yn gwrthwynebu'r cais cynllunio yma. Ceir manylion pellach isod.<br><br>**Safleoedd Gwarchodedig**<br>Mae safle'r estyniad arfaethedig oddi mewn i Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Eryri a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Eryri.<br><br>**ACA Eryri Colli cynefin yn uniongyrchol** |

Nid ydym yn ystyried y byddai'r cynnig yn arwain at golled uniongyrchol i gynefin yr ACA gan nad oes unrhyw gynefin Atodlen 1 yn bresennol o fewn yr estyniad arfaethedig.

**Rheoli Dŵr**

Rydym yn ystyried y gallai'r cynnig yn ei gyfanrwydd arwain at golli cynefin yn anuniongyrchol os na roddir sylw i weithrediad y ffrwd bresennol. Yn dilyn ymgynghoriadau blaenorol, croesawn y ffaith fod yr estyniad arfaethedig bellach wedi'i gyfyngu i'r ardal oddi mewn i berimedr y ffrwd bresennol. Fodd bynnag, cyfeiriwn at adran 9.127 y Datganiad Amgylcheddol (DA), sy'n datgan "Nid oes angen ac ni fyddir yn gwyro llwybr y ffrwd na'i haddasu ar gyfer yr estyniad a fwriedir. Bydd y ffrwd yn parhau i weithredu yn ei lleoliad a'i ffurf bresennol. Fe welir fod y ffrwd wedi perfformio'n dda ers iddi gael ei hadeiladu ac mae'n bodloni'r egwyddorion dylunio a nodwyd yn y cynllun lliniaru. Caiff y ffrwd ei harchwilio, ei rheoli a'i chynnal a chadw'n rheolaidd a chaiff ei harchwilio ar ôl pob storm". Pan fu staff CNC yn ymweld â'r safle yn flaenorol, rydym yn anghytuno gyda'r datganiad bod y ffrwd yn gweithio'n iawn. Mae effaith ac effeithiolrwydd y ffrwd, yn ein tyb ni, dal yn aneglur iawn.

Mae'r caniatâd sy'n bodoli, C16/1164/16/MW, yn cynnwys amodau 31 a 32 sy'n gofyn am waith monitro blynyddol ar weithrediad y ffrwd, ynghyd ag unrhyw waith adfer sy'n angenrheidiol. Nid yw CNC wedi cael clywed am unrhyw adroddiadau monitro blynyddol, neu unrhyw adroddiadau cynnal a chadw mewn perthynas â gweithrediad y ffrwd.

Yn fras, dylai'r ffrwd bresennol a'r ffos ail-lenwi a fwriedir fod yn gweithredu gyda'i gilydd i helpu i gynnal cydbwysedd dŵr y llaid/cors sydd i'r gogledd yn agos i'r amodau presennol h.y. amodau hydrodynameg/cydbwysedd dŵr cyn dechrau gweithio'r ardal sy'n rhan o'r estyniad. Fodd bynnag, mae'n rhaid monitro'r ffrwd a'r ffos ail-lenwi a dylid dylunio ar gyfer hyn ynghyd â pheth monitro ar yr ardal i'r gogledd o'r ffos ail-enwi h.y. o fewn y fignen/gors ei hun. Gallai'r monitro hwn gynnwys nifer o biesomedrau bas, gyda chofnodwr data ('datalogger') wedi'u gosod ar rai fel bod modd monitro'r lefelau dŵr yn y ffrwd/ffos ail-lenwi mewn amser real, a'u cysoni yn erbyn data dŵr glaw. Mae sicrhau data monitro o'r fath ar gyfer y cyfnodau sychach yn arbennig o bwysig, gan mai dyma pryd mae'r gors yn fwyaf dibynnol ar y dŵr sydd ar gael yn lleol, a dyma'r dŵr a allai gael ei effeithio gan natur ymwthiol ardal yr estyniad.

Felly cynghorwn eich Awdurdod bod cynllun monitro diwygiedig, a'r angen i fonitro'r ffrwd yn rheolaidd, yn cael eu cynnwys fel amod gydag unrhyw ganiatâd.

**Amod 1 -** Cyn dechrau'r datblygiad, bydd rhaid cyflwyno cynllun

monitro hirdymor ar gyfer y ffrwd a'r ffos ail-lenwi i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, a bydd rhaid iddo gael ei gymeradwyo yn ysgrifenedig ganddynt. Dylai'r cynllun monitro hirdymor gynnwys

• Manylion am y dulliau monitro a'r trothwyon ar gyfer cymryd camau adferol

• Amserlenni ar gyfer cyflwyno adroddiadau monitro i'r ACLl e.e. yn flynyddol

• Manylion unrhyw gamau gweithredu wrth gefn a chamau adferol sydd eu hangen, ac amserlenni ar gyfer y camau

• Manylion yn cadarnhau bod y camau wrth gefn a'r camau adferol wedi'u gweithredu.

Bydd y cynllun monitro yn cael ei gynnal yn unol â'r manylion a gymeradwywyd, o fewn yr amserlenni a gytunwyd. Nid oes unrhyw asesiad o effaith sylweddol tebygol dan Reoliad 63, Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, wedi'i gynnal gan eich Awdurdod neu ni chafodd ei anfon ymlaen i CNC ei ystyried. Pe baech yn dod i'r casgliad bod y datblygiad arfaethedig yn debygol o gael effaith sylweddol ar y safle Ewropeaidd, edrychwn ymlaen i chi ail-ymgynghori gyda ni. Yn absenoldeb yr asesiad hwn, ni all CNC roi sicrwydd na fydd y cynigion yn arwain at effaith andwyol ar yr ACA.

**SoDdGA Eryri**
**Y Frân Goesgoch**
Mae brain coesgoch yn nodwedd o SoDdGA Eryri. Cynghorwn nad yw'r Datganiad Amgylcheddol, adran 7.66, wedi cwblhau asesiad ystyrlon o'r risg o effaith ar y frân goesgoch - yr unig beth a wna yw tybio y byddai unrhyw effaith yn ddibwys. Mae CNC yn derbyn na fyddai unrhyw effaith ar ffurf tarfu'n uniongyrchol ar frain coesgoch sy'n bridio, ond hoffem nodi y gallai fod yna effaith isel bosib ar ardaloedd porthiant y frân goesgoch, yn sgil colli 1.83 hectar o laswelltir asid byr yn ôl adran 7.66 y DA. Argymhellwn fod rhannau o'r ardal ddigolledu, neu unrhyw ardaloedd eraill sy'n fwy addas, yn cael eu rheoli i hyrwyddo cynefin ymborthi ar gyfer y frân goesgoch.

**Cen**
Un o nodweddion arbennig y SoDdGA yw ei amrywiaeth eang o rywogaethau cen. Mae posib i'r estyniad arfaethedig effeithio ar y nodwedd hon o'r SoDdGA. Nid ydym yn cytuno gyda chanlyniad yr asesiad cen. Mae'r asesiad i weld wedi'i selio'n bennaf ar y dybiaeth y byddai'r casgliad yn y SoDdGA dal yn gymwys heb gennau o'r lleoliad yma. Nodwn fod y DA yn ymrwymo i drawsleoli cennau (ar greigiau) o bwys. Cynghorwn eich bod yn darparu gwybodaeth bellach, llawer cliriach (gan gynnwys mapiau awyr/mapiau gyda nodiadau) ynghylch lleoliad cennau o bwys, p'un a fydd trawsleoli ar graig yn ymarferol bosib, ac os ydyw, sut a lle byddent yn cael eu

gosod. Cynghorwn felly y dylid cynnwys yr amod isod gydag unrhyw ganiatâd cynllunio:

**Cyflwr -** Ni chaniateir cychwyn unrhyw ddatblygiad hyd nes bydd Cynllun Rheoli Cen ar gyfer rheoli a monitro'r cen wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Dylai'r Cynllun Rheoli Cen gynnwys:

• Manylion nodweddion cen sy'n bresennol ar y safle neu a fydd yn cael eu creu ar y safle

• Manylion y cyflwr a ddymunir ar gyfer nodweddion (rhai sy'n bresennol a rhai a grëir) ar y safle;

• Manylion amserlennu gweithgareddau;

• Manylion y rheoli tymor byr a thymor hir, monitro a chynnal a chadw'r cen i sicrhau a chynnal y cyflwr a ddymunir;

• Datganiad dull yn rhoi manylion am sut bydd nodweddion sydd â chen yn cael eu trawsleoli, a'r lleoliadau a gynigir,

• Manylion amserlenni, hyd y cynllun, y dull i adolygu a diweddaru cynlluniau (ar sail y gwaith monitro) ar gyfnodau penodol fel y cytunwyd. Bydd y Cynllun Rheoli Cen yn cael ei gynnal yn unol â'r manylion a gymeradwyir.

**Cyfiawnhad:** Dylid cyflwyno Cynllun Rheoli Cen i sicrhau y caiff mesurau angenrheidiol i reoli'r cen eu cytuno cyn dechrau ar yr estyniad ac y cânt eu gweithredu i sicrhau bod y cen yn cael ei reoli'n ddigonol yn y tymor hir.

Fel rhan o'r drefn barhaus o reoli a chynnal a chadw cynefin ACA/SoDdGA o fewn terfyn llinell goch yr ymgeisydd, a chynefinoedd yn y safle ehangach, dylai'r ymgeisydd ystyried mesurau rheoli priodol (gan gynnwys, er enghraifft, pori priodol yn y cynefin a rheoli/cau allan y boblogaeth geifr gwyllt lle bo angen).

**Cynllun Digolledu**

Nodwn fod yr ardal ddigolledu o fewn y Cynllun Cynefinoedd ((PQ 7/3, Ionawr 2022) wedi'i lleoli tu allan i'r ffin llinell goch a ddangosir ar y cynllun lleoliad safle. Tynnwn sylw'r Awdurdod at y ffaith efallai y bydd angen sicrhau rheolaeth a chynnal a chadw'r ardal hon drwy rwymedigaeth cynllunio.

**Cynllun Adfer**

O ran y cynllun adfer, a chan dderbyn y caiff y cynllun ei adolygu a'i addasu'n barhaus, cynghorwn y dylai'r gwaith adfer geisio ategu ac ail-greu cynefinoedd y SoDdGA/ACA lle bo hynny'n bosib.
Mae nodau a statws yr ardal ddigolledu a sefydlwyd fel rhan o'r

estyniad blaenorol yn aneglur a dylent ffurfio rhan o sgwrs barhaus ynglŷn â gweithrediadau'r chwarel ac effeithiau hynny ar yr amgylchedd. Mae'r DA yn cydnabod na fu diweddariad i'r Cynllun Rheolaeth ar gyfer yr ardal ddigolledu (roedd i fod i ddigwydd erbyn mis Rhagfyr 2018), yn groes i amod 48 y caniatâd presennol yn ôl pob tebyg.

**Tirwedd**

Mae'r darlun Cysyniad Adfer PQ6/15 Mawrth 2022 yn cynnwys yr estyniad i'r chwarel. Mae'r drefn ar gyfer y gwaith adfer yn dilyn cynigion a ganiatawyd o'r blaen sy'n cynnwys ailgyflwyno llystyfiant yn y ponciau uwch. Nid oes gennym unrhyw bryderon ynglŷn â'r cysyniad adfer yn gyffredinol. Fodd bynnag, fe'ch cynghorwn i ymgynghori â ni ynghylch unrhyw Gynllun Adfer Manwl pan ddaw ar gael. Cynghorwn felly y dylid cynnwys yr amod isod gydag unrhyw ganiatâd:

**Amod -** Ddim llai na 12 mis cyn rhoi'r gorau i gloddio a gweithio deunydd, bydd rhaid i gynllun digomisiynu ac adfer manwl gael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Dylai'r Cynllun Adfer Manwl gynnwys:
• Manylion am y dulliau o dynnu elfennau ar yr wyneb ac is yr wyneb yr ystyrir sy'n hanfodol.
• Manylion am sut bydd y safle'n cael ei adfer i gyflwr derbyniol
• Amseru'r gwaith digomisiynu
• Y mesurau i'w defnyddio yn ystod gwaith digomisiynu er mwyn lleihau i'r eithaf effeithiau amgylcheddol y gwaith (gan ystyried mesurau posib i atal aflonyddwch a llygredd)
• Manylion camau adfer ar gyfer yr ardaloedd y mae'r comisiynu'n amharu arnynt.

Fodd bynnag, nid oes gennym unrhyw bryderon yng nghyswllt amrywio'r amod i ymestyn yr amser ar gyfer cloddio a gweithio'r deunydd hyd 2035, ac ymestyn yr amser i adfer y safle i 2037.

Mae'r gwaith chwarela presennol yn digwydd tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri ond oddi mewn i'w osodiad a rhai golygfeydd. Nid yw'r gweithgarwch presennol yn y chwarel yn cael effeithiau sylweddol ar fwynderau gweledol neu'r llonyddwch a brofir gan y cyhoedd yn y parc cenedlaethol. Ni fyddai parhau â'r gweithgarwch yn newid hyn.

Byddai yna beth oedi wrth weithredu'r cynllun adfer. Ni fyddai'r cynllun hwn yn peri newid o bwys i gymeriad sefydledig y chwarel, a'i phresenoldeb a'i dylanwad ar ddyffryn Nant Ffrancon a'r olygfa o Barc Cenedlaethol Eryri. Felly ni fyddai oedi'r cynllun adfer yn

| | |
| --- | --- |
| | andwyol i ddibenion cadwraeth neu wella'r Parc Cenedlaethol. |
| Welsh Water: | Dim sylwadau wedi'u derbyn. |
| Uned Gwarchod y Cyhoedd: | Dim sylwadau wedi'u derbyn. |
| Uned Bioamrywiaeth: | Mae Chwarel y Penrhyn yn bwriadu ymestyn yr amser ar gyfer gwaith chwarela ac adfer, ac ymestyn yr ardal gloddio. Mae'r estyniad arfaethedig yn mesur tua 2.26 ha. |

Mae'r cais yn datgan: estyniad bychan o 2.3 hectar i ardal gloddio'r chwarel (dim ond 1.6 hectar fyddai'n destun y gwaith cloddio a gweithio mwynau), sy'n gorwedd yn llwyr oddi mewn i ffin y caniatâd cynllunio presennol cyf. C16/1164/16/MW.

Fe wnes ymweld â'r safle ym mis Ionawr 2019 efo ecolegydd yr ymgeisydd.

<u>Data'r safle</u>

• Mae'r bwriad oddi mewn i ACA Eryri a SoDdGA Eryri a ddynodwyd am eu cynefinoedd a rhywogaethau rhostir, uwchdir a mynyddig. Mae'r safle arfaethedig ar gyfer yr estyniad o fewn gweundir o rosydd a chors gyda rhedyn a glaswelltir.

• Mae'r fadfall wedi'i chofnodi yn yr ardal gloddio arfaethedig.

• Mae arolygon blaenorol wedi canfod y caineirian bach.

<u>Cynefinoedd</u>

Mae ardal estyniad y chwarel o fewn glaswelltir asid gyda rhedyn a chlogfeini ar wasgar, a chorlan ddefaid o'r Oes Haearn. Byddai'r holl gynefinoedd o fewn ardal yr estyniad sef 2.26ha yn cael eu colli.

<u>Adroddiadau Ecoleg</u>

Mae'r ymgeisydd wedi darparu adroddiad Asesiad Effaith ar yr Amgylchedd sy'n cynnwys arolygon cynefinoedd, arolygon cen

• Ail-alinio Chwarel y Penrhyn: arolwg cen o'r ardal a amlinellir mewn glas ar fap a ddarparwydy mewn e-bost dyddiedig 11/01/2019 Alan Orange Chwefror 2019

• Chwarel y Penrhyn Estyniad Arfaethedig i Weithfeydd y Chwarel Atodiad 7/4: Adroddiad ar gyfer yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a Baratowyd ar gyfer: Breedon Trading Ltd. SLR

Mawrth 2022

• Arolwg Cynefinoedd ar gyfer Estyniad Arfaethedig Chwarel y Penrhyn, Paratowyd ar gyfer: Breedon Southern Ltd. SLR Mawrth 2020

Safle Gwarchodedig - ACA Eryri a SoDdGA Eryri

Bydd 2.26 ha yn cael ei golli, sy'n cynrychioli 0.01% o arwynebedd ardal y SoDdGA (sy'n mesur 20,343.5 ha i gyd). Mae hyn yn cynnwys colli 1.83 ha o laswelltir asid a chlogfeini sy'n cynnal rhywogaethau cen nodedig.

Mae'r Datganiad Amgylcheddol (SLR 2022) yn dod i'r casgliad bod risg isel o lwch yn teithio ar yr aer, a chyfansoddiad cemegol niwtral y llwch ( hynny yw, llwch yn codi o ddaeareg debyg i'r cynefinoedd sy'n ei dderbyn, a llwch nad yw'n llawn maeth neu fwynau), felly nid oes unrhyw effaith sylweddol debygol ar unrhyw gynefinoedd nodedig yn y SoDdGA ac nid oes angen unrhyw gamau lliniaru pellach. Cytunaf fod y llwch o'r gwaith chwarela yn annhebygol o gael effaith sylweddol.

Cennau

Canfu'r adroddiad cen fod cyfanswm o 69 rhywogaeth wedi'u cofnodi, gan gynnwys dau (Bryoria fuscescens a Mycoblastus affinis) sydd â statws Bregus yn Llyfr Data Coch Cymru a 6 rhywogaeth sy'n Genedlaethol Brin. Ystyrir hefyd fod yma rai mathau o gen sy'n bwysig iawn fel enghreifftiau o rywogaethau uwchdir sy'n eithaf anghyffredin yn Eryri, sef y Sphaerophorus fragilis, Umbilicaria polyphylla ac U. torrefacta.

Mae'r safle'n cynnal cymunedau cen nodweddiadol sydd wedi hen sefydlu mewn ardaloedd ucheldir yng ngogledd Cymru. Yn amlwg nid yw'r safle'n cael ei effeithio gan ffynonellau lleol o nitrogen adweithiol. Fodd bynnag, dim ond un rhywogaeth yma (Bryoria fuscescens) sydd yn y Llyfr Data Coch. Ar wahân i Rhizocarpon subgeminatum mae'r chwe rhywogaeth Cenedlaethol Brin yn gymharol ddibwys yng nghyd-destun ACA Eryri.

Mae'r Datganiad Amgylcheddol (SLR 2022) yn cynnig parhau â'r camau lliniaru ar gyfer y caniatâd blaenorol, a bod clogfeini sydd â chen arnynt yn cael eu trawsleoli, fodd bynnag mae'r DA yn adrodd nad yw ymdrechion i symud clogfeini bob tro'n bosib oherwydd bod cymaint o'r garreg wedi'i chuddio o dan y ddaear. Rwy'n fodlon gyda’r dull arfaethedig i liniaru a monitro'r cen.

Ymlusgiaid

Caiff ymlusgiaid eu gwarchod dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) ac maent yn Rywogaeth Blaenoriaeth Adran 7. Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn cadarnhau

bod yna boblogaeth fechan o ymlusgiaid oddi mewn i'r safle ac yn dweud y byddai yna ymdrech resymol i sicrhau bod ymlusgiaid yn absennol o'r ardal waith cyn i'r gwaith gychwyn. Argymhellaf addasu'r camau lliniaru ymlusgiaid a gynigir yn y DA, i ddatgan na fydd unrhyw waith clirio pridd/y ddaear yn digwydd mewn tymereddau is na 9 gradd Celsius.

Adar sy'n nythu

Mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) yn gwarchod pob rhywogaeth sy'n nythu. Mae sawl rhywogaeth (gan gynnwys yr ehedydd) wedi'i rhestru fel rhai o bwysigrwydd mawr dan adran 7 Deddf yr Amgylchedd. Camau lliniaru a fwriedir - Tynnu'r cynefin adar nythu posib tu allan i'r tymor bridio (dechrau Ebrill i ddiwedd Awst), neu os nad yw hyn yn bosib, ecolegydd profiadol i wirio am bresenoldeb adar sy'n nythu cyn unrhyw waith, a chadw nythod acif tan fod y cywion yn gadael y nyth.

Rhywogaethau ymledol anfrodorol - planhigion

Dylid monitro'r chwarel am blanhigion ymledol anfrodorol er enghraifft ffromlys chwarennog, buddleia a rhododendron.

Ffrwd

Yn y caniatâd blaenorol C16/1164/16/MW roedd pryder fod twll y chwarel yn stopio llif dŵr wyneb a dŵr daear ar y llethrau uwchben rhag cyrraedd y gors islaw Gwaen Gynfi, gan felly addasu hydroleg y cynefinoedd corslyd. I liniaru hyn fe adeiladwyd ffrwd fel rhan o gais C16/1164/16/MW. Ffurfiwyd y ffrwd a'r basn teneuo trwy dyllu'r tir yn 2016.

Ar ôl adeiladu'r ffrwd ac yn dilyn glaw trwm ym mis Tachwedd 2016, daeth y ffrwd yn lletach ac yn ddyfnach yn sgil cyflymder a chyfaint y dŵr a lifai drwyddi, oherwydd pa mor serth yw'r llethr (o uchder cyfuchlin o 450 i 355). Canlyniad hyn oedd bod y basn teneuo wedi llenwi'n gyflym iawn â deunydd (gro a cherrig) a chasgliad o falurion carreg a gro lle mae'r ffrwd yn troi o amgylch ardal yr estyniad ac yn dilyn y gyfuchlin.

Pan ymwelais yn 2016 ac yn 2019 nid oedd y malurion o'r ffrwd i weld yn ymestyn i gynefin, sy'n nodwedd hanfodol o'r ACA.

Yn dilyn fy ymweliad safle yn 2019 anfonais e-bost at Jess Colebrook, Ecolegydd SLR yn nodi y dylid diweddaru arolygon a mapiau i gynnwys nodweddion newydd yn y dirwedd (y ffrwd a thraciau cysylltiedig) a'r newidiadau mewn cynefinoedd a llystyfiant o ganlyniad.

Mae'r Cynllun Cynefinoedd (PQ7/3 Ionawr 2022) a ddarparwyd gan yr ymgeisydd yn dangos bod y garreg a'r gro a olchwyd allan o'r

ffrwd yn ymestyn i'r cynefin rhostir gwlyb (M15D).

Mae'r ymgeisydd wedi darparu ffotograffau (Ffigwr 5 – Envireau Water) o'r ffrwd a dynnwyd yn 2017 a map yn dangos Cloddfeydd a Dalgylchoedd y Ffrwd (Ffigwr 4).

Daw'r llun a'r map hwn o'r awyr o'r adroddiad archeolegol, ond mae'n dangos faint o gerrig a gro sydd wedi gorlifo o'r ffrwd.

Cynllun Adfer

Ar wahân i'r estyniad a cholled y nodwedd archeolegol, mae'r cynllun adfer yn aros yr un fath â'r caniatâd blaenorol C16/1164/16/MW.

Defaid yn Pori

Mae'n bwysig nad yw defaid yn cael pori yn yr ardaloedd adfer cynefin

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Mae'r ymgeisydd wedi darparu gwybodaeth yn sail i ARhC (SLR 2022) dan reoliad 63 Rheoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Byddai'r bwriad hwn yn cymryd 2.26ha o dir oddi mewn i ACA Eryri. Mae'r wybodaeth oedd yn hysbysu'r ARhC yn casglu fel a ganlyn:

Bydd y prosiect yn golygu colli 2.26 ha o laswelltir a rhedyn yn barhaol, nid yw'r rhain yn nodwedd amodol o ACA Eryri, ac nid ydynt yn cefnogi unrhyw rywogaethau amodol.

Cymerwyd agwedd ragofalus o ran y posibilrwydd o darfu ar nodweddion o ddiddordeb yr ACA sydd gerllaw safle'r cais (rhostir gwlyb, rhostir sych a mignen) o ganlyniad i ddyddodion llwch o bosib, a chynnydd bychan iawn yn y pwysau posib o bori. Deuir i'r casgliad gan fod risg isel o lwch yn teithio ar yr aer, a chyfansoddiad cemegol niwtral y llwch ( hynny yw, llwch yn codi o ddaeareg debyg i'r cynefinoedd sy'n ei dderbyn, a llwch nad yw'n llawn maeth neu fwynau), nad oes unrhyw effaith sylweddol debygol ar unrhyw gynefinoedd amodol yn ACA Eryri o ganlyniad i'r estyniad ochrol i'r gwaith chwarela. Yn debyg iawn, ni ystyrir bod cynnydd o 0.001 LU/ha yn y tir comin cyfagos yn arwain at unrhyw effaith fesuradwy.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r posibilrwydd o effeithiau cyfun yn ystod y cyfnod adeiladu. Fodd bynnag, ni adnabuwyd unrhyw gynlluniau neu brosiectau yng nghyffiniau'r safle a allai arwain at effeithiau cronnol.

Nid ydym wedi canfod unrhyw effeithiau sylweddol posib o ganlyniad i'r cynigion, naill ai'n unigol neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill.

Cytunaf â'r casgliad hwn na fydd y bwriad yn cael effaith andwyol ar

ACA Eryri.

Crynodeb ac Argymhellion

• Nid oes gennyf wrthwynebiad i ymestyn yr amser ar gyfer gweithio'r chwarel a'i hadfer.

• Rwy'n fodlon na fydd y bwriad yn cael effaith andwyol ar ACA Eryri, er y bydd yn arwain at gymryd 2.26ha o dir oddi mewn i'r safle dynodedig.

• Mae gennyf bryderon ynglŷn â gweithrediad y ffrwd, a hefyd nid yw'r ymgeisydd wedi darparu data monitro'r ffrwd ers ei hadeiladu yn 2016 sy'n amod yng nghaniatâd C16/1164/16/MW. Rwyf hefyd yn bryderus y gallai cerrig mân o'r ffrwd ymestyn i gynefinoedd sensitif a mygu llystyfiant.

• Mae gennyf bryderon ynghylch ymestyn yr ardal gloddio mewn perthynas â chennau, ac rwy'n argymell amod cynllunio i gadw/trawsleoli creigiau lle mae mathau pwysig o gen.

• Dylai mesurau diogelu ymlusgiaid fod yn amod cynllunio.

• Dylai mesurau i ddiogelu adar sy'n nythu fod yn amod cynllunio.

• Mae'n rhaid symud defaid sy'n pori o'r chwarel a'r ardaloedd adfer. Dylid adeiladu ffens sy'n atal stoc rhag dod drwodd. Dylai hyn fod yn amod.

• Rwy'n argymell amod ar gyfer - monitro, rheoli a difa rhywogaethau planhigion ymledol (e.e. Rhododendron, Buddleia, Himalayan Balsam) a dylid darparu adroddiad plannu bob blwyddyn hyd nes bod y gwaith adfer wedi'i gwblhau.

Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd:

Diolch am ymgynghori gyda ni ar y cais uchod. Rwyf wedi edrych ar y wybodaeth a gyflwynwyd gan gyfeirio'n arbennig at yr elfennau hynny sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol, sef Pennod 8 y Datganiad Amgylcheddol a'r adroddiadau technegol sy'n cyd-fynd. Fel y disgrifir yn yr adroddiadau, rydym wedi cynghori ynghylch, a monitro'r asesiad desg a'r gwerthusiad maes. Gallaf gadarnhau bod yr holl waith wedi'i gwblhau yn unol â'r safonau proffesiynol perthnasol ac yn darparu sail addas ar gyfer gwneud penderfyniad cynllunio deallus.

Mae Pennod 8 wedi'i strwythuro'n dda, ac yn darparu'r holl fanylder perthnasol heb ailadrodd y gwaith helaeth a wnaed ar gyfer ceisiadau blaenorol. Mae rhesymeg gall tu ôl i'r asesiad o effeithiau ac rwy'n cytuno â'r asesiad a'r argymhellion lliniaru. Mae'r rhain yn cynnwys tair elfen: cofnod adeilad Lefel 3 o'r gorlan ddefaid aml-adran (PRN 29989); cloddiad archeolegol o'r safle cylch cytiau (PRN 5380 a

nodweddion cysylltiedig); a brîff gwylio ar y gwaith daear, i'w gymhwyso'n 'rhannol' (hynny yw pan fo'n briodol); ynghyd â gwaith ôl-gloddio fel bo'r angen yn sgil y darganfyddiadau a wneir.

Mae sylwadau ynglŷn â'r effaith ar osodiad asedau hanesyddol dynodedig, y Safle Treftadaeth y Byd a arysgrifiwyd yn ddiweddar, ac ar yr adroddiad ASIDOHL yn perthyn i gylch gwaith CADW yn bennaf, ond hoffwn gadarnhau ein bod ninnau hefyd yn cytuno gyda'r asesiad mai bychan yw'r effeithiau hyn ac nad ydynt o bwys mawr yn nhermau'r AEA.

Nodaf yn eu sylwadau cyn-gwneud-cais, fod Cadw wedi datgan y byddai'n ddymunol gadael y tomennydd hanesyddol heb lystyfiant fel eu bod yn cynnal eu cyfraniad presennol i gymeriad parth byffer y Safle Treftadaeth y Byd. Yn yr adroddiad PAC, mae'r ymgeisydd yn egluro nad yw'r awgrym hwn wedi cael ei fabwysiadu ar y cam hwn oherwydd nad oes bwriad bellach i addasu proffil y tomennydd, felly nid oes newid i'r dull adfer a gymeradwywyd. Byddem yn ategu argymhelliad Cadw, fel cyfle i gyfrannu at yr amcanion o gadw a gwella'r Safle Treftadaeth y Byd gan hefyd alluogi amcanion bioamrywiaeth lleol i gael eu bodloni yn rhywle arall o fewn y chwarel.

Yn wyneb y sylwadau uchod, gallwn gadarnhau nad oes gennym unrhyw sylwadau ar y cais i amrywio Amodau 1 a 3 (C22/0327/16/AC). O ran y cais cynllunio mwynau llawn (C22/0336/16/MW), pe rhoddir caniatâd cynllunio, byddem yn argymell gosod amod addas er mwyn sicrhau'r rhaglen liniaru a gynigir, yn unol â pholisi cynllunio lleol a chenedlaethol. Awgrymir y geiriad a ganlyn:
*(i) Ni ddylai unrhyw ddatblygiad (gan gynnwys dymchwel, clirio'r safle, stripio uwchbridd neu waith arall ar y ddaear) ddigwydd hyd nes bod yr ymgeisydd (neu eu hasiant neu olynwyr mewn teitl) wedi cyflwyno manyleb o waith archeolegol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a bod yr Awdurdod wedi ei gymeradwyo'n ysgrifenedig. Bydd rhaid ymgymryd â'r datblygiad a chwblhau'r holl waith archeolegol yn unol â'r fanyleb a gymeradwywyd.*
*(ii) Bydd rhaid cyflwyno adroddiad manwl ar y gwaith archeolegol sy'n ofynnol yn amod (i) i'r Awdurdod Cynllunio Lleol o fewn 12 mis o gwblhau gwaith maes archeolegol, a bydd rhaid iddo gael ei gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.*
*Rhesymau: 1) Sicrhau bod rhaglen briodol o waith lliniaru archeolegol yn cael ei gweithredu yn unol â gofynion Polisi Cynllunio Cymru a TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol.*
*2) I sicrhau y bydd y gwaith yn cydymffurfio â MORPHE/Rheolaeth Prosiectau Archeolegol (MAP2) a Safonau a Chanllaw Sefydliad Siartredig yr Archeolegwyr (CIfA).*

Mae'n rhaid i'r holl waith archeolegol gael ei wneud yn unol â

| | |
| --- | --- |
| | safonau a chanllaw Sefydliad Siartredig yr Archeolegwyr, gan gwmni archeolegol proffesiynol priodol - a bydd rhaid iddynt gytuno manyleb ar gyfer y gwaith efo ni ymlaen llaw. Mae croeso i chi gysylltu â mi ar unwaith os oes gennych ymholiadau am yr uchod. |
| Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru: | <u>Ail ymateb dyddiedig 07/09/2022:</u><br>Cyfeiriaf at eich ymgynghoriad dyddiedig 24/08/2022 ynglŷn â'r cais cynllunio uchod. Bydd ymestyn hyd oes weithredu'r datblygiad yn cynyddu'r traffig yn ystod cyfnod y cais o gymharu â'r gwaith yn darfod. Fodd bynnag, gan na fydd unrhyw welliant posib i gyfleusterau i ddefnyddwyr ffordd bregus wedi eu lleoli ar y gefnffordd, nid yw Llywodraeth Cymru fel yr awdurdod priffyrdd ar gyfer cefnffordd yr A5 yn cyflwyno unrhyw gyfarwyddyd ynghylch y cais hwn.<br><br><u>Ymateb cyntaf dyddiedig 03/05/2022:</u><br>Cyfeiriaf at eich ymgynghoriad ar 8 Ebrill 2022 ynglŷn â'r cais cynllunio uchod, a hysbysaf fod Llywodraeth Cymru fel yr awdurdod priffyrdd ar gyfer cefnffordd yr A5 yn cyfarwyddo na ddylid rhoi caniatâd cynllunio am y tro gan nad yw'r ymgeisydd wedi darparu gwybodaeth ddigonol i allu penderfynu ar y cais. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddarparu'r wybodaeth a ganlyn i gefnogi'r cais hwn neu bydd rhaid iddo ailgyflwyno'r cais gyda'r manylion a ganlyn:<br><br>*1. Mae angen eglurder ar ba welliannau i'r ddarpariaeth Teithio Llesol ar/oddi ar y safle a gynigir yn sgil yr estyniad i oes gweithio'r chwarel, i gyd-fynd â Deddf Teithio Llesol Cymru, Llwybr Newydd, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a PCC. Dylai cysylltedd i arhosfan bws leol gael ei gynnwys mewn adolygiad ynghyd â gwybodaeth am unrhyw fuddion parhaol a gynigir i'r ardal. Efallai y bydd gofyn am nodyn technegol traffig i roi manylion y cynnydd mewn traffig sy'n defnyddio'r fynedfa ers i'r caniatâd cynllunio presennol gael ei roi.* |
| CADW: | Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 8 Ebrill yn gwahodd ein sylwadau ar y wybodaeth a gyflwynwyd ar gyfer y cais cyn-cynllunio uchod.<br><br><u>Cyngor</u><br>Ar ôl ystyried yn ofalus y wybodaeth a ddarparwyd, nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig o ran yr henebion cofrestredig na pharciau hanesyddol cofrestredig a gerddi a restrwyd yn ein hasesiad o'r cais isod. Mae'r polisi cenedlaethol a rôl Cadw mewn cynllunio wedi'i nodi yn Atodlen A. |

Asesiad
Henebion Rhestredig
CN119 Siambr Gladdu Sling
CN219 Ty'n Twr
CN297 Gwaliau Llechi yn Felin Fawr, Penrhyn
CN374 Carnedd Moel y Ci
CN415 Ffordd Haearn Chwarel y Penrhyn
CN416 Chwarel y Penrhyn: ardaloedd creiriol, ysbyty chwarel a lefelau dan-ddaear
CN417 Rheilffordd Chwarel y Penrhyn

Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig:
HLW (Gw) 6 Dinorwig HLW (Gw) 10 Dyffryn Ogwen

Safleoedd Treftadaeth y Byd
Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru. Rhoddir y cyngor hwn mewn ymateb i gais dan Adran 73 i amrywio amodau 1 a 3 ar gais cynllunio C16/1164/16/MW (Cais dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i benderfynu ar amodau dan adolygiad cyfnodol) i ymestyn yr amser ar gyfer cloddio a gweithio deunydd hyd at 2035, ymestyn yr amser i adfer y safle i 2037 ac addasu cynlluniau i wneud lle i estyniad arfaethedig i'r ardal sy'n cael ei gweithio ar hyn o bryd yn Alfred McAlpine Slate Products, Chwarel y Penrhyn, Bethesda, Bangor.

Cyflwynwyd y cais hwn gyda datganiad amgylcheddol sy'n cynnwys pennod 8 Treftadaeth Diwylliannol a baratowyd gan Andrew Josephs Associates. Mae'r gwaith hwn wedi ystyried effaith y newidiadau arfaethedig i'r amodau ar yr asedau hanesyddol dynodedig a'u gosodiad. Daw i'r casgliad ar ei waethaf y bydd yna effaith fach arnynt ac effaith fach ar y dynodiad Safle Treftadaeth y Byd. Rydym yn cytuno â'r casgliad hwn.

Parc Cenedlaethol Eryri: Ni chafwyd ymateb.

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Rhoddwyd rhybudd yn y wasg ac mewn sawl lleoliad yn agos at y safle a rhoddwyd gwybod i'r trigolion cyfagos. Mae'r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben ac ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan y cyhoedd.

**5. Asesiad o’r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**Egwyddor y Datblygiad**

5.1 Mae egwyddor ymestyn cyfnod gwaith y chwarel ar y safle hwn yn seiliedig ar Bolisi Mwynau Strategol PS 22 a Pholisi MWYN 3 Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn 2011 (CDLl ar y Cyd). Mae Polisi PS 22 yn datgan y bydd y Cyngor yn cyfrannu at y galw parhaol yn lleol a rhanbarthol am gyflenwad o fwynau trwy gynnal gwerth o leiaf saith mlynedd o fanc tir o Dywod a Graean a banc tir deg mlynedd wrth gefn o agregau cerrig mâl yn unol ag arweiniad cenedlaethol.

5.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru - Argraffiad 11 (PCC) yn ymgorffori polisïau cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygiadau mwynau a amlinellwyd yn flaenorol ym Mholisi Cynllunio Mwynau Cymru (2001). Yn unol â gofyn PCC 11, mae gan Gyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Cynllunio Mwynau ddyletswydd i sicrhau bod adnoddau mwynau yn cael eu defnyddio mewn modd cynaliadwy, fel y gallent gyfrannu'n briodol at ofynion deunyddiau adeiladu'r ardal. Dyma'r prif egwyddorion a nodir yn adran 5.14 (Mwynau) PCC:

- *darparu'n gadarnhaol ar gyfer diogelu a gweithio adnoddau mwynau i ddiwallu anghenion cymdeithas heddiw ac yfory, gan annog defnydd effeithlon a phriodol o ddeunyddiau o safon uchel;*
- *gwarchod nodweddion amgylcheddol a diwylliannol lleoedd, gan gynnwys y rhai â phriodoleddau cynhenid megis bywyd gwyllt, tirweddau, coetiroedd hynafol a nodweddion hanesyddol, ac amddiffyn iechyd a diogelwch a llesiant cyffredinol pobl;*
- *lleihau effaith cloddio am fwynau a gweithrediadau cysylltiedig yn ystod y cyfnod gweithio trwy sicrhau bod unrhyw effaith ar nodweddion amgylcheddol perthnasol a achosir gan gloddio am fwynau a chludo mwynau, er enghraifft, ansawdd yr aer a seinwedd, o fewn y terfynau derbyniol; ac*
- *adfer y tir i safon uchel fel nad yw’n dirywio i gyflwr diffaith a dod â manteision gwirioneddol i gymunedau a/neu fywyd gwyllt, gan gynnwys ôl-ddefnydd buddiol neu gyfleoedd i wella bioamrywiaeth a’r amgylchedd hanesyddol.*
- *ymysg amcanion eraill, mae Polisi Cynllunio Cymru yn cydnabod bod gweithio mwynau yn wahanol i ffurfiau eraill o ddatblygiad gan mai dim ond lle mae'r mwyn i'w gael y gellir ei gloddio ac mae'r datblygiad yn un trosiannol ac ni ellir ei ystyried fel defnydd tir parhaol er y gall y gwaith ddigwydd dros gyfnod hir o amser.*

5.3 Mae Cyngor Gwynedd, ar y cyd â holl Awdurdodau Cymru wedi cadarnhau'r Datganiad Technegol Rhanbarthol a luniwyd gan Weithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru sydd ar hyn o bryd yn destun ail adolygiad. Paratowyd y datganiad yn unol â darpariaethau Polisi Cynllunio Mwynau (Cymru) a Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 1: Agregau (NCTM1), i osod amcan cyffredinol i sicrhau cyflenwad o agregau y mae modd ei reoli’n gynaliadwy; Fel y gellir cael y cydbwysedd gorau rhwng ystyriaethau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol, a sicrhau bod effeithiau ar yr amgylchedd ac ar fwynderau sy'n deillio o unrhyw waith cloddio angenrheidiol yn cael eu cadw ar lefel sy'n osgoi achosi niwed amlwg i fuddion o bwysigrwydd cydnabyddedig". Prif ddiben y Datganiad Technegol Rhanbarthol yw amlinellu'r strategaeth ar gyfer darparu’r agregau yn rhanbarth gogledd Cymru.

5.4 Yn Natganiad 2014 fe adnabuwyd banc tir o gerrig mâl yng Ngwynedd o thua 8.51 miliwn o dunelli gyda deunydd dros ben (at ddibenion y band tir) o 1.76 miliwn o dunelli. Mae deic dolerit yn croesi wyneb de-orllewin yr ardal sy'n cael ei gweithio ar hyn o bryd ym Mhenrhyn yn golygu bod oddeutu 1.11 miliwn tunnell o'r graig yn ddeunydd na ellir ei weithio. Byddai estyniad

arfaethedig (yn amodol ar gais cynllunio cyfeirnod C22/0336/16/MW) yn rhyddhau oddeutu 250,000 tunnell o lechi to piws ac 1.9 miliwn tunnell o lechi coch/glas addurniadol. Bydd parhau i gloddio llechi ynghyd â'r estyniad arfaethedig hwn yn sicrhau nad oes diffyg yn y graig sydd dal ar ôl wrth gynnal a chadw banc tir saith mlynedd ac y gall y Cyngor ddiwallu ei gyfran o ymrwymiadau yn yr RTS i gyflenwi mwynau ar gyfer is-ranbarth Gogledd Cymru yn unol â Pholisi Strategol 22: Mwynau a MWYN 3 o'r CDLl ar y Cyd.

5.5 Yn amodol ar ystyried yr holl ystyriaethau cynllunio materol eraill, ystyrir bod y datblygiad yn cydymffurfio gyda gofynion Polisi Mwynau Strategol PS22 a Pholisi MWYN 3 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 gan roi ystyriaeth i bolisi cenedlaethol cyfredol ar gyfer cynnal banc tir o reserfau mwynau yn unol â'r canllawiau sydd wedi'u cynnwys yn NCTM1 (Cymru) Agregau a'r Datganiad Technegol Rhanbarthol. Yn ogystal â'r egwyddor o ran yr angen am y datblygiad, mae'r materion cynllunio hanfodol yn yr achos hwn yn cael sylw yn y penodau isod.

**Mwynderau Gweledol a'r Dirwedd**

5.6 Mae'r gweithfeydd Chwarel y Penrhyn wedi cael eu sefydlu'n dda ac o ran y dirwedd ac asesiad gweledol, mae'n berthnasol ystyried materion tirwedd hanesyddol ac mae ganddo'r potensial i effeithio ar olygfeydd i mewn i Barc Cenedlaethol Eryri ac allan ohono. Mae'r ardal sy'n union o amgylch y safle yn cynnwys nifer o ddynodiadau tir sensitif, megis: Parc Cenedlaethol Eryri, Safle Treftadaeth y Byd Ardal y Llechi, Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyffryn Ogwen (LOHI), Ardal Tirwedd Arbennig (ATA) Ymylon Gogledd-orllewin Eryri. Ymhellach draw mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Ynys Môn, Parciau a Gerddi Hanesyddol Y Faenol a Chastell Penrhyn, ATA Menai a Mynydd Bangor a Thirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dinorwig - mae'r rhain oll wedi'u hadnabod o fewn yr Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol (LVIA) a gyflwynwyd fel rhan o'r Datganiad Amgylcheddol.

5.7 Yn ogystal â'r asedau tirwedd dynodedig hyn, mae'r LVIA wedi asesu asedau tirwedd sydd heb ddynodiad yn yr ardal o amgylch y safle. Mae'r LVIA wedi casglu ar y cyfan, fod y chwarel ei hun a'r ardal sy'n union o'i hamgylch o werth a bregusrwydd canolig/isel.

5.8 O ystyried graddfa'r datblygiad, mae'n debygol y byddai'n anodd gwahaniaethu safle'r estyniad (cais C2/0336/16/MW). oddi wrth yr ardal gloddio a gweithio bresennol yn y chwarel o fannau ymhellach draw Fodd bynnag, mae'r LVIA yn casglu y bydd unrhyw effeithiau amlwg ar y dirwedd wedi'u cyfyngu i ardaloedd sydd union gerllaw'r safle, yn benodol Gwaun Gynfi ac Elidir Fach.

5.9 Mae mesurau lliniaru yn cynnwys bwndiau sgrinio, cyfeiriad a datblygiadau graddol y gwaith, gosodiad llechi gorlwythol a hindreuliedig fel rhan o gynllun adfer y safle, cadw nodweddion o ddiddordeb archeolegol ac ecolegol, yn benodol:

- Cyfeirio a datblygu'r gwaith o weithfeydd cloddio llechi yn raddol er mwyn gwneud y defnydd gorau o nodweddion ffurf tir presennol, h.y. gweithio tu ôl i gefnen naturiol ar ochr dde ddwyreiniol y nodwedd archeolegol (corlan),
- Adfywio wynebau cerrig datgeledig yn fuan ar ôl i'r gwaith cloddio gael ei gwblhau ymhob cam,

- Adfer ardaloedd sydd wedi cael eu gweithio yn gyfnodol e.e. y Chwarel Werdd uwchlaw, ac adfer y tomenni gwastraff llechi hanesyddol a leolir tu allan i ardal y cais ond a gynhwysir yn amgaead y cynllun yn gyffredinol.
- Adfer y tomenni gwastraff llechi hanesyddol gyda phwyslais ar gadwraeth natur.

5.10 Mae Polisi MWYN 9 y CDLl ar y Cyd yn gofyn i geisiadau am weithfeydd mwynau gael eu gwrthod oni bai bod cynllun adfer cynhwysfawr yn cael ei gynnwys. Mae strategaeth adfer bresennol ar gyfer y safle cyfan yn amod yn y ROMP (C16/1164/16/MW). Mae'r cynlluniau a gyflwynwyd gyda'r cais hwn yn ogystal â C22/0336/16/MW yn darlunio sut fydd y cynllun adfer yn cael ei ehangu i gynnwys ardal yr estyniad.

5.11 Mae'r cynllun adfer hwn yn anelu i ail-greu cynefin rhostir mynyddig yn naturiol ac ailsefydlu'r tir a gaiff ei ddifrodi gan waith y chwarel. Mae ardaloedd penodol o'r chwarel eisoes wedi bod yn destun prosesau o adferiad naturiol, gan ddarparu model cadwraeth i raglen rheoli adferiad y chwarel. Hefyd, yn unol â rhaglen sy'n cynnwys amrywiaeth o ddulliau plannu ac ardaloedd treialu ardaloedd ar gyfer tyfu grug, mae llawer iawn o blannu coed a gosod grugoedd wedi cael ei wneud ar domennydd gogledd-ddwyreiniol ac ochr de-orllewinol yr ardal gloddio bresennol.

5.12 Daw'r planhigion a'r coed a ddewisir o darddiad lleol. Mae'r dechneg gyntaf yn cynnwys plannu ar lethrau'r tomennydd, gyda'r coed mewn sachau hesian sy'n llawn compost gwyrdd. Os yw'n anodd cael mynediad ar droed at y llethrau, defnyddir dulliau *seed-balling* (peli o hadau) sy'n golygu cynhyrchu peli compost sydd wedi'u cymysgu â hadau sydd eisoes wedi egino. Caiff y peli hadau hyn wedyn eu taflu i lawr llethrau'r tomennydd lle byddant yn bachu i'r ddaear yn y diwedd.

5.13 Er bod cynllun adfer yn bodoli ar gyfer y safle, mae CNC wedi nodi y byddent yn argymell cyflwyno cynllun adfer manwl cyn diwedd y gwaith chwarela. Dylai hwn gynnwys:

• Manylion am y dulliau o dynnu elfennau ar yr wyneb ac is yr wyneb yr ystyrir sy'n hanfodol.
• Manylion am sut bydd y safle'n cael ei adfer i gyflwr a ystyrir yn dderbyniol
• Amseru'r gwaith digomisiynu
• Y mesurau i'w defnyddio yn ystod gwaith digomisiynu er mwyn lleihau i'r eithaf effeithiau amgylcheddol y gwaith (gan ystyried mesurau posib i atal aflonyddwch a llygredd)
• Manylion camau adfer ar gyfer yr ardaloedd y mae'r comisiynu'n amharu arnynt.

5.14 Mae'r ACM yn ystyried yr amod hwn yn ychwanegiad rhesymol i'r cais ac y byddai'n sicrhau bod y safle cyfan yn cael ei adfer yn y modd mwyaf effeithiol.

5.15 Yn ychwanegol i'r cynllun plannu, bwriedir ailgyflwyno ac adfer hawliau tramwy cyhoeddus rhif 46 a 50 yng nghymuned Llandygai a chodi wal gerrig sych newydd am 750m ar hyd ffin yr eiddo. Mae'n bwysig fod y gwaith adfer yn cael ei fonitro i sicrhau strategaeth lwyddiannus a chydlynol ar gyfer y safle cyfan.

5.16 Gan hynny, ni ystyrir y byddai'r bwriad yn effeithio'n sylweddol ar gymeriad tirwedd yr ardal o ystyried pa mor agos yw'r bwriad at y gweithfeydd chwarel presennol a hanesyddol a'r dirwedd y mae wedi'i leoli ynddi. Felly, bydd y bwriad yn cydymffurfio â gofynion polisïau cynllunio PCYFF 3, PCYFF 4 a MWYN 9 y CDLl ar y Cyd.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.17 Mae Polisi MWYN 3 y CDLl ar y Cyd yn datgan y bydd estyniadau i safleoedd mwynau presennol yn dderbyniol cyn belled nad oes unrhyw niwed annerbyniol i fwynderau nac iechyd trigolion lleol o ran yr effaith weledol, lefelau llwch, sŵn, dirgrynu a golau o ganlyniad i'r gwaith ei hun neu'r symudiadau traffig a geir yn ei sgil. Caiff yr angen hwn i sicrhau nad yw cynigion datblygu yn effeithio ar fwynderau trigolion ei orfodi ym mhwynt 7 o bolisi PCYFF 2 sy'n nodi:

*"Iechyd, diogelwch neu fwynderau meddianwyr eiddo lleol, defnyddiau tir neu eiddo arall neu nodweddion yr ardal leol oherwydd mwy o weithgareddau, aflonyddwch, dirgryniad, sŵn, llwch, mygdarth, sbwriel, dreiniau, llygredd golau, neu ffurfiau eraill o lygredd neu aflonyddwch;"*

5.18 Mae parhad arfaethedig y gweithrediadau am 3 blynedd ychwanegol, yn ôl ei natur, yn debyg i'r dulliau cloddio a symud peiriannau sydd wedi bod yn weithredol ar y safle am sawl blwyddyn ac sydd wedi bod yn destun rheoliadau amgylcheddol drwy amodau cynllunio, neu drwyddedau wedi'u cyflwyno dan gylch gorchwyl arbenigol Cyfoeth Naturiol Cymru. O ystyried graddfa'r gwaith llechi presennol, mae cwynion yn gymharol brin ac mae'r dystiolaeth yn dangos y gall y safle weithredu heb effeithio'n andwyol ar fwynderau'r ardal, o dan delerau amodau cynllunio ac/neu drwyddedau amgylcheddol. Nodir na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau yn dilyn y cyfnod ymgynghori cyhoeddus statudol.

5.19 Gellir dangos felly fod y chwarel yn medru gweithredu heb achosi effaith andwyol ar fwynderau eiddo preswyl, yn cynnwys y rhai sydd wedi'u lleoli mewn byffer 200m yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru a'r canllaw ar gynllunio mwynau yn NCTM1. Yn ogystal, dwynir materion neu gwynion amgylcheddol is sylw grŵp cyswllt y chwarel sydd, yn y bôn, yn fforwm i gyfnewid barn a syniadau rhwng y partïon a gaiff eu heffeithio fwyaf neu sy'n ymwneud â gwaith y chwarel, sef y gymuned a'r trigolion lleol, yr awdurdod cynllunio mwynau lleol a gweithredwr y chwarel.

5.20 Mae penodau 10, 11 a 12 y Datganiad Amgylcheddol yn darparu asesiad ar Sŵn, Ansawdd Aer, Dirgryniad a Llesiant sydd oll yn faterion a allai effeithio'n uniongyrchol ar fwynderau cyffredinol a phreswyl yn yr ardal o amgylch.

**Sŵn a Dirgryniad**

5.21 Mae'r asesiad sŵn wedi ystyried y sŵn posib o'r gwaith arfaethedig yn erbyn amodau sŵn yn y caniatâd cynllunio presennol. Mae'n cadarnhau yn y sefyllfa waethaf bosib; byddai'r lefelau sŵn yn is na'r lefelau a osodwyd mewn amodau (cynllunio) presennol. Yn ogystal, aseswyd bod effaith gronnol y sŵn o'r gwaith arfaethedig a'r gwaith sy'n digwydd eisoes oddi mewn i'r terfynau sŵn a roddwyd fel amodau yn y caniatâd cynllunio presennol. Mae'r asesiad yn darparu nifer o fesurau lliniaru i'w gweithredu ar y safle, yn cynnwys;

- Cymryd mantais o effaith gwanhau sŵn gan ffurfiau tir presennol;
- Lleoli ffyrdd cludo i ffwrdd o eiddo sy'n sensitif i sŵn;
- Osgoi sefyllfa lle mae cerbydau'n ysgwyd ac yn swnllyd drwy gadw lonydd cludo mewn cyflwr da;
- Lefelau allyriadau sŵn ar yr holl beiriannau symudol, ynghyd â phatrwm symud cylchol er mwyn osgoi larymau bagio diangen;
- Dim refio injans yn ddiangen, a gollwng llwythi o'r uchder lleiaf posib wrth weithredu offer a pheiriannau;

- Lleoli pympiau, generaduron a chywasgwyr (compressors) tu ôl i sgrin gyda chlawr awcwstig, neu eu hamgáu'n llwyr os oes raid.

5.22 Mae asesiad o'r effeithiau posib o ddirgryniadau ffrwydro wedi'i gynnwys ym mhennod 12 y Datganiad Amgylcheddol.

5.23 Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad nid oedd unrhyw sylwadau ysgrifenedig wedi dod i law gan Uned Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor (disgwylir iddynt eu cyflwyno cyn cynnal cyfarfod y pwyllgor). Fodd bynnag, mae swyddogion Gwarchod y Cyhoedd wedi nodi nad oes ganddynt unrhyw wrthwynebiad i'r bwriad ac ystyrir ei bod yn briodol gosod yr amodau a osodwyd yn wreiddiol ar y ROMP (C16/1164/16/MW) ar y bwriad hwn. Mae'r amodau hyn yn cynnwys:

- Cyfyngu lefelau sŵn rhwng 07:00 a 19:00.
- Cyfyngu lefelau sŵn sy'n tarddu o weithrediadau dros dro ar y safle (megis symud pridd a gorlwyth).
- Monitro lefelau sŵn mewn eiddo penodol gerllaw.
- Y camau lliniaru a nodir ym mharagraff 5.20 uchod
- Cyfyngu'r oriau gweithio a gweithredu.
- Cyfyngiadau ar ffrwydro a'r dulliau o ffrwydro.

5.24 Gyda'r amodau priodol, ystyrir bod y bwriad yn cydymffurfio â'r polisïau perthnasol yn MWYN 3 a PCYFF 2 y CDLl ar y Cyd.

**Ansawdd Aer a llwch**

5.25 Mae pennod 11 y Datganiad Amgylcheddol wedi asesu'r effeithiau ar ansawdd yr aer (yn benodol llwch) sy'n tarddu o weithrediadau'n gysylltiedig â'r estyniad arfaethedig ar dderbynyddion lleol. Yn gyntaf, mae'r asesiad hwn wedi sefydlu'r safon bresennol o ran ansawdd yr aer ac wedi rhoi ystyriaeth i unrhyw gynnydd. Ar ôl asesu lefelau presennol y mater gronynnol $PM_{10}$ a $PM_{2.5}$ daethpwyd i'r casgliad eu bod o dan y terfyn gofynnol ac na fyddai'r bwriad yn arwain at fynd yn uwch na'r terfynau hyn. Ymhellach, mae'r risg o lwch gweddilliol yn effeithio ar dai a safleoedd ecolegol gerllaw yn ddibwys a byddai modd ei wyrdroi cyhyd â bod camau lliniaru'n parhau i gael eu defnyddio ar y safle.

5.26 Fel y nodwyd, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad nid oedd unrhyw sylwadau ysgrifenedig wedi dod i law yn ffurfiol gan Uned Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor (disgwylir iddynt eu cyflwyno cyn cyfarfod y pwyllgor). Yn yr un modd, nid oes gan y swyddog unrhyw wrthwynebiad i'r bwriad mewn perthynas ag ansawdd aer neu lwch ac mae'n argymell gosod yr amod a roddwyd yn ystod ROMP 2016 ar y datblygiad hwn.

5.27 Bydd yr amod hwn yn mynnu bod y datblygwr yn parhau â'r drefn gyfredol o fonitro llwch a chyflwr yr atmosffer, gweithredu camau lliniaru i gadw llwch i lawr, a chadw log o gwynion am lwch.

5.28 Gyda'r amod hwn ystyrir bod y bwriad yn cydymffurfio â'r polisïau perthnasol yn MWYN 3 a PCYFF 2 y CDLl ar y Cyd.

**Materion Traffig, Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Thir Comin**

5.29 Nid yw'r cynnig yn cynnwys bwriad i gynyddu symudiadau HGV o'r safle a byddai'n rhyddhau'r adnodd mwyn yn unol ag oes hwy arfaethedig y chwarel.

5.30 Mae adran Drafnidiaeth y Cyngor wedi cadarnhau nad oes unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig a'i fod yn annhebygol o gael unrhyw effaith ar y rhwydwaith priffyrdd.

5.31 Mae hawliau tramwy cyhoeddus (Rhifau 46 a 50 yng nghymuned Llandygai) yn croesi ochr ddeheuol y pen gogleddol lle mae'r ffordd gludo yn cysylltu wyneb y gwaith gydag ardal brosesu'r chwarel. Yn 2002, gwnaed gorchymyn dros dro i gau llwybrau rhif 46 a 50 dan Adrannau 257 a 261 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i ganiatáu cynnal gwaith cloddio gyda chaniatâd. Roedd y gorchymyn cau i barhau am 15 mlynedd ac ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, roedd gofyn i berchnogion y chwarel adfer y llwybrau a'r rhannau oedd wedi'u gwyro'n unol â Gorchymyn 2002.

5.32 Ar gyfer materion sy'n cynnwys Hawliau Tramwy Cyhoeddus, mae Polisi TRA 4 CDLl ar y Cyd yn berthnasol ac yn datgan;

*'Ni chaniateir datblygiadau a fyddai'n peri niwed annerbyniol i weithrediad diogel ac effeithlon y briffordd, cludiant cyhoeddus a rhwydweithiau cludiant eraill gan gynnwys llwybrau i gerddwyr, beicwyr, hawliau tramwy cyhoeddus a llwybrau ceffyl. Bydd lefel y niwed annerbyniol yn cael ei bennu gan yr awdurdod lleol fesul achos'*

5.33 Yn yr achos hwn, mae'n bwysig nodi, fod y system dipio a'r strategaeth adfer gyffredinol ar gyfer y safle'n ffurfio rhan o'r cynigion datblygu a amlinellwyd yn yr Adolygiad Cyfnodol. Fodd bynnag, gallai'r sefyllfa o ran hawliau tramwy arwain at ganlyniadau sylweddol o ran gweithredu nid yn unig yr hawliau tipio, ond hefyd pryderon iechyd a diogelwch lle gellir ail-sefydlu mynediad y cyhoedd i ardaloedd gweithredol y chwarel. Cafodd cyfnod y gorchymyn cau gwreiddiol hwn ei ymestyn ym mis Chwefror 2017 hyd ar 31 Rhagfyr 2034, sef dyddiad olaf y caniatâd mwynau. Mae'r Uned Hawliau Tramwy Cyhoeddus wedi cadarnhau fod llwybr caniataol wedi'i sefydlu a'i fod yn dilyn y llwybr a ddefnyddiwyd i gludo cwsmeriaid i'r wifren uchaf yn Zip World. Cytunwyd ar y llwybr hwn gyda'r Cyngor ac mae ar hyn o bryd yn destun peth gwaith er mwyn medru agor y llwybr i'r cyhoedd. Felly, ystyrir er bod yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus gwreiddiol oedd yn croesi'r chwarel wedi cael eu heffeithio am gyfnod sylweddol, mae'r llwybr caniataol a gytunwyd iddo yn darparu mynediad diogel rhwng Llandygai a'r llethrau sy'n esgyn uwchben y chwarel.

5.34 Mae'r Uned Hawliau Tramwy Cyhoeddus wedi cadarnhau y bydd angen i'r ymgeisydd / gweithredwr;

• *wneud cais i'r Uned Gefn Gwlad a Mynediad am Orchymyn i ymestyn cyfnod cau llwybrau 46 a 50 hyd y dyddiad hwnnw.*

• *talu'r costau cyfreithiol, gweinyddol a'r costau hysbysebu sy'n gysylltiedig â gorchymyn o'r fath.*

• *gytuno i ymestyn cyfnod y cytundeb i gael llwybr caniataol hyd at 31/12/2037.*

5.35 Bydd y camau hyn i sicrhau'r cyfnod cau a'r cytundeb ar gyfer llwybr caniataol i gyd-fynd â dyddiad gorffen gwaith y chwarel yn cael eu cynnwys fel amodau ar y caniatâd hwn. Ystyrir y byddai'r camau hyn yn ddull derbyniol i sicrhau llwybr i'r cyhoedd ac i sicrhau nad yw'r cynnig yn achosi niwed annerbyniol i Hawliau Tramwy Cyhoeddus er mwyn cydymffurfio â pholisi TRA y CDL ar y Cyd.

**Hydroleg a Hydroddaeareg**

5.36 Mae'r chwarel wedi'i lleoli ar dir mynyddig lle mae'r glawiad yn uchel a cheir dŵr ffo sylweddol, ond nid yw wedi'i lleoli mewn ardaloedd dynodedig lle tybir bod risg uchel o lifogydd o afonydd neu lifogydd dŵr glaw.

5.37 Fel rhan o'r Datganiad Amgylcheddol, cyflwynwyd Asesiad Canlyniadau Llifogydd (FCA) ac Asesiad Risg Hydroddaearegol (HRA). Mae'r dulliau rheoli dŵr sy'n cael eu gweithredu'n bresennol ar y safle yn cynnwys; draenio a sianeli agored, draenio drwy bwmpio, teneuo dŵr wyneb, lagŵns setlo ynghyd â ffrwd rwystro a gafodd ei gweithredu fel rhan o'r estyniad yn 2012.

5.38 Mae'r ffrwd hon yn rhedeg ar hyd ffin gwagle'r chwarel a ffin yr estyniad arfaethedig, gan ddal dŵr wyneb a'i ailgyfeirio i wlypdir a thir mawnog Gwaun Gynfi. Mae hyn yn gwneud yn iawn am y golled flaenorol o ddalgylch hydroddaearegol o geisiadau cynt am estyniad, ac yn cynnal ffynhonnell o ddŵr i'r gwlypdir.

5.39 Daw'r asesiadau i'r casgliad nad oes unrhyw effaith uwch ar nodweddion hydroddaearegol o'r estyniad arfaethedig law yn llaw â'r gwaith chwarela presennol, cyn belled ag y gweithredir mesurau lliniaru a monitro fel yr argymhellir.

5.40 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi dweud eu bod yn derbyn y mwyafrif o'r canfyddiadau hyn, fodd bynnag, maent yn amheus ynghylch effeithiolrwydd y ffrwd. Mae CNC wedi datgan y dylid gosod amod ar unrhyw ganiatâd cynllunio i sicrhau cynllun monitro hirdymor i gynnwys;

• Manylion am y dulliau monitro a'r trothwyon ar gyfer cymryd camau adferol.
• Amserlenni cyflwyno adroddiadau monitro i'r ACLl e.e. yn flynyddol.
• Manylion unrhyw gamau gweithredu wrth gefn a chamau adferol sydd eu hangen, ac amserlenni ar gyfer y camau.
• Manylion yn cadarnhau bod y camau wrth gefn a'r camau adferol wedi'u gweithredu.

5.41 Mae Polisi PCYFF 6 y CDLl ar y Cyd yn mynnu bod "Pob cynnig sy'n fwy na 1,000 m² neu 10 uned breswyl yn cyflwyno Datganiad Cadwraeth Dŵr". Mewn ymateb i'r gofyn hwn, mae'r ymgeisydd wedi darparu Datganiad Cadwraeth Dŵr a gynhyrchwyd gan 'Envireau Water'. Mae'r datganiad yn nodi na fydd yna gynnydd mewn defnydd dŵr ar y safle ac y bydd dŵr ar gyfer tampio llwch yn cael ei ddarparu o ddŵr a storiwyd mewn llefydd gweigion (i bob pwrpas mae'r rhain yn gweithredu fel System Draenio Cynaliadwy (SuDS) mawr o fewn y chwarel. Mae dŵr budr yn cael ei waredu drwy system drin carthion ac nid yw wedi'i gysylltu i'r brif garthffos. Mae materion hydroddaearegol eraill (megis llifogydd o afonydd neu ddŵr glaw) wedi cael eu hystyried o fewn yr FCA a'r HRA (wedi'u cynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol).

5.42 Ar sail y dystiolaeth i law, ni fydd y bwriad arfaethedig yn effeithio'n negyddol ar gadwraeth dŵr ar y safle nac yn rhoi straen ychwanegol ar adnoddau dŵr.

5.43 Yn ddibynnol ar osod yr amod hwn, ystyrir na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cael unrhyw effaith andwyol ar nodweddion hydroddaearegol a risg llifogydd a'i fod yn cydymffurfio gyda gofynion Polisi Strategol PS 19, Polisïau AMG 3, AMG 5, PCYFF 2, PCYFF3, PCYFF 6 a MWYN 3 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.

**Materion Ecolegol a Bioamrywiaeth**

5.44 Mae rhannau o'r chwarel (yn cynnwys yr estyniad arfaethedig) o fewn dynodiadau SoDdGA ac ACA Eryri. Dynodwyd y safleoedd hyn am eu cynefinoedd a rhywogaethau rhostir, uwchdir a

mynyddig gyda'r estyniad arfaethedig yn benodol yn y glaswellt a'r rhedyn asidig.

5.45 Mae'r Datganiad Amgylcheddol wedi adolygu adroddiadau arolwg a gynhaliwyd ar gyfer ymestyn y chwarel yn 2012 ac ar gyfer y ROMP yn 2016 ac wedi sefydlu fod y rhan fwyaf o'r arolygon hyn yn parhau'n ddigonol ar gyfer asesu effaith y bwriad yn amodol ar gynnal rhai arolygon ychwanegol. Mae'r arolygon presennol yn cynnwys adroddiadau ar gyfer ffyngau cennog a chennigol, mycoleg, y fadfall ddŵr gribog, ystlumod, moch daear, ymlusgiaid, dyfrgwn, adar, infertebratau botanegol a llygod dŵr. Cynhaliwyd arolygon ychwanegol ar yr effaith bosib ar ACA a SoDdGA Eryri yn ogystal â'r frân goesgoch, dyfrgwn, moch daear a rhywogaethau cen.

5.46 Mae CNC wedi nodi rhai pryderon gydag elfennau o asesiad y Datganiad Amgylcheddol sy’n ymwneud â’r frân goesgoch a chen yn SoDdGA Eryri. Datgan CNC fod y DA yn dweud y bydd effaith y datblygiad ar y frân goesgoch yn ddi-nod a hynny heb ddarparu asesiad ystyrlon. Felly, argymhella CNC y dylid darparu rhannau o'r ardal ddigolledu fel cynefin ymborthi i'r frân goesgoch. O ran cen, mae CNC wedi gofyn i Gynllun Rheoli Cen gael ei gyflwyno cyn cychwyn y datblygiad ac i gynnwys;

- Manylion nodweddion cen sy'n bresennol ar y safle neu a fydd yn cael eu creu ar y safle;
- Manylion y cyflwr a ddymunir ar gyfer nodweddion (rhai sy'n bresennol a rhai a grëir) ar y safle;
- Manylion rhaglennu ac amserlennu gweithgareddau;
- Manylion y rheoli tymor byr a thymor hir, monitro a chynnal a chadw'r cen i sicrhau a chynnal y cyflwr a ddymunir;
- Datganiad dull yn rhoi manylion am sut bydd nodweddion sydd â chen yn cael eu trawsleoli, a'r lleoliadau a gynigir;
- Manylion amserlenni, hyd y cynllun, y dull i adolygu a diweddaru cynlluniau ar gyfnodau penodol fel y cytunwyd.

5.47 Ymgynghorwyd ag Uned Bioamrywiaeth yr Awdurdod Lleol a chadarnhawyd ganddynt nad oes unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad a'u bod yn cytuno ar y cyfan gyda'r mesurau lliniaru a argymhellir. Mae'r amodau ychwanegol a argymhellir yn cynnwys;

- Cadw/trawsleoli creigiau lle mae mathau pwysig o gen.
- Amgáu ardaloedd o'r chwarel sydd wedi'u hadfer gyda ffens i atal defaid rhag pori yno
- Monitro a rheoli rhywogaethau planhigion ymledol megis rhododendron a’r ffromlys chwarennog nes caiff y gwaith adfer ei gwblhau.

5.48 Wrth ystyried yr uchod, mae'r cynnig yn dderbyniol yn amodol ar y mesurau lliniaru priodol ac mae'n cydymffurfio â pholisïau AMG 5, AMG 6, PS 19 y CDLl ar y Cyd a NCT 5.

**Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

5.49 Yn unol â rheoliad 63, Rheoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, mae'r ymgeisydd wedi darparu Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gan y byddai'r estyniad arfaethedig (a ystyrir dan gais C22/0336/16/MW) yn arwain at golli 2.26ha o ACA Eryri. Mae'r Uned Bioamrywiaeth yn cytuno â chasgliad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ei bod yn debygol na fydd effaith sylweddol ar unrhyw un o'r cynefinoedd nodedig yn yr ACA yn sgil llwch yn teithio ar yr aer, da byw fesul

hectar ar y tir comin gyferbyn neu effeithiau cronnol gyda datblygiadau gerllaw.

5.50 Mae CNC wedi cadarnhau eu bod yn cytuno â chasgliadau'r ARhC na fydd unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd ACA Eryri yn sgil estyniad y chwarel ac ymestyn cyfnod gwaith y chwarel.

**Archaeoleg a Threftadaeth Ddiwylliannol**

5.51 Mae'r DA yn cyflwyno rhestr o ddeddfwriaeth a chanllawiau cynllunio perthnasol fel cefndir i asesiad o effeithiau amgylcheddol y cynnig ar nodweddion hysbys o fuddion diwylliannol, henebion, asedau treftadaeth ac adeiladau rhestredig. Mae'r meini prawf asesu a gwerthusiad o'r cynigion datblygu yn gymharus â'r fethodoleg sy'n cael ei chymhwyso i'r effaith ar y dirwedd a'r effaith weledol i benderfynu ar yr effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol.

5.53 Mae'r ardal sydd union o amgylch y safle yn cynnwys nifer o ddynodiadau treftadaeth ddiwylliannol sensitif, megis: Safle Treftadaeth y Byd Ardal y Llechi, Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyffryn Ogwen (LOHI), Ardal Tirwedd Arbennig (ATA) Ymylon Gogledd-orllewin Eryri. Ymhellach draw mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Ynys Môn, Parciau a Gerddi Hanesyddol Y Faenol a Chastell Penrhyn, ATA Menai a Mynydd Bangor a Thirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dinorwig.

5.53 Mae corlan ddefaid gellog ôl-ganoloesol o fewn ardal yr estyniad sy'n destun cais cynllunio C22/0337/16/MW a bydd rhaglen o gofnodi a dymchwel dan reolaeth yn cael ei chynnal cyn datblygu'r estyniad. Byddai'r gwaith yn cynnwys;

- Cofnod weledol gynhwysfawr yn cynnwys ffotograffiaeth a chynlluniau â mesurau.
- Monitro gwaith dymchwel, yn cynnwys cloddio archeolegol pan fo hynny'n briodol, i gofnodi'r camau adeiladu ac unrhyw adeiladwaith cynharach sydd oddi tan neu o fewn y gorlan.
- Llunio adroddiadau, yn cynnwys adolygiad o gyd-destun lleol a rhanbarthol y strwythur.
- Archif integredig gyflawn sy'n addas ar gyfer cyfrannu iddi yn yr hirdymor er mwyn ei chadw trwy gofnod.

5.54 Mae CADW a Gwasanaeth Cynllunio Archaeoleg Gwynedd wedi cadarnhau nad oes ganddynt unrhyw wrthwynebiad i'r gwaith arfaethedig ac maent yn cydsynio â chrynodeb y bennod ar Dreftadaeth Ddiwylliannol yn y Datganiad Amgylcheddol. Daw'r bennod i gasgliad na fyddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith ar ddynodiad Safle Treftadaeth y Byd nac ar ei Werth Cyffredinol Eithriadol a bydd yn cael effaith weledol anuniongyrchol bychan neu fychan iawn ar yr Ardal Dirwedd Hanesyddol.

5.55 Mae Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd wedi sicrhau y bydd manyleb o'r gwaith archeolegol yn cael ei chyflwyno cyn clirio'r safle a bod gofyn am adroddiad manwl o unrhyw ddarganfyddiadau archeolegol dilynol.

5.56 Yn ddibynnol ar yr amodau priodol a'r mesurau lleddfu, ystyrir na fydd y cynnig yn cael effaith sylweddol ar asedau treftadaeth sydd wedi'u dynodi a heb eu dynodi ac felly, mae'n cydymffurfio

â pholisïau PS20, AT 1 ac AT 4 y CDLl ar y Cyd ac amcan 7 y Canllawiau Cynllunio Atodol: Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

**Yr Iaith Gymraeg**

5.57 Mae Adran 1 (a) polisi strategol PS 1 'Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig' yn nodi y bydd angen darparu Datganiad Iaith Gymraeg gyda chynnig am 'Ddatblygiad manwerthu, diwydiannol neu fasnachol sy’n cyflogi mwy na 50 o weithwyr a/ neu gydag arwynebedd o 1,000 m. sg. neu fwy;

5.58 Mewn ymateb i'r angen hwn, mae'r ymgeisydd wedi darparu Datganiad Iaith Gymraeg sy'n cynnwys y cynnig i ymestyn cyfnod gweithio'r chwarel a'r estyniad arfaethedig. Mae Pennod 6 y datganiad yn asesu unrhyw effeithiau posib y datblygiad ar yr iaith a'r gymuned leol drwy ystyried;

- symudiad iaith a phoblogaeth posib.
- elfennau gweledol.
- ansawdd bywyd yn cynnwys seilwaith gymunedol.
- cyflogaeth.

5.59 Daw'r datganiad i'r casgliad fod gan y chwarel weithlu sydd wedi'i hen sefydlu (yn cynnwys uwch reolwyr) ac mae gan nifer sylweddol y gallu i siarad neu'n meddi ar sgiliau Iaith Gymraeg. Byddai’r estyniad arfaethedig i oes y chwarel yn cynnal y gweithlu presennol am gyfnod hwy ac o bosib yn rhoi'r cyfle ar gyfer dilyniant o weithwyr iau heb orfod denu gweithwyr o du allan i'r ardal leol.

5.60 Ar adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn, nid oedd Uned Iaith y Cyngor wedi ymateb i'r ymgynghoriad ond disgwylir derbyn sylwadau cyn cynnal cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio. Fodd bynnag, ar sail natur y cais a'r dystiolaeth sydd i law, ni ystyrir ei bod yn debygol y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg. Ystyrir felly fod y cynnig yn cydymffurfio â pholisi PS 1 ac arweiniad Canllawiau Cynllunio Atodol: Cynnal a Chreu Cymunedau Ffyniannus a Chynaliadwy.

**Yr Economi**

5.61 Mae Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygiad Economaidd, yn datgan: wrth wneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio, bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol gadw mewn cof bod defnydd busnes traddodiadol, dosbarthiadau B1–B8 ond yn cyfrif am ran o’r gweithgaredd yn yr economi. Mae’n bwysig bod y system gynllunio yn cydnabod agwedd economaidd pob datblygiad ac yn gwneud penderfyniadau cynllunio mewn modd cynaliadwy sy’n cadw cydbwysedd rhwng ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Mae’n datgan ymhellach; Dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol gydnabod arwyddion y farchnad a rhoi sylw i'r angen i dywys datblygiad economaidd i'r lleoliad mwyaf addas yn hytrach na rhwystro neu atal y fath ddatblygiad. Mae Chwarel y Penrhyn yn un o’r chwareli hynaf yn y DU a deallir bod llechi wedi cael eu cloddio o’r safle ers cyn belled â’r drydedd ar ddegfed ganrif.

5.62 Mae'r cynnig y mae'r cais yn ymwneud ag o yn hollol hanfodol i gyfraniad economaidd y cwmni yn y dyfodol. Mae’r cwmni’n gwneud cyfraniad uniongyrchol a sylweddol i’r economi leol a chyflogaeth uniongyrchol/anuniongyrchol o ganlyniad i weithrediadau'r chwarel. Yn fwy na hyn, mae cadw gweithwyr lleol yn cael effeithiau positif ar ddiwylliant, ac yn fwy penodol, ar statws y Gymraeg yn yr ardal.

5.63 Felly, ystyrir y bydd y bwriad yn gwneud cyfraniad positif i economi’r ardal yn unol â Pholisi Strategol PS 13 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a NCT 23.

**6. Casgliad:**

6.1 Mae'r cais hwn yn ceisio addasu darpariaethau caniatâd cynllunio presennol er mwyn ymestyn hyd y gwaith cloddio mwynau am dair blynedd ychwanegol ac addasu cynlluniau gweithio er mwyn ymgorffori estyniad arfaethedig i'r gwaith cloddio (sy'n destun cais ar wahân).

6.2 Fel y trafodir uchod, caiff yr egwyddor o ymestyn cyfnod gwaith y chwarel ei chefnogi gan bolisïau cynllunio lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gynnal cyflenwad o fwynau hanfodol. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw newid amlwg yn amodau gweithio'r safle nac yn effaith weledol y safle o fewn tirwedd y chwarel. Ystyrir nad oes unrhyw faterion hollbwysig sy'n peri pryder gyda mwynder, sŵn, llwch a materion amgylcheddol yn destun rheolau sy'n bodoli eisoes ac sydd wedi'u sefydlu'n dda sydd wedi cael eu craffu fel rhan o'r Datganiad Amgylcheddol.

6.3 Mae prif faterion ecolegol/cynefinoedd y cais hwn yn ymwneud ag effeithiolrwydd y ffrwd sy'n rhedeg ar hyd ffin y chwarel gan ailgyfeirio dŵr i wlypdir a thir mawnog Gwaun Gynfi (sy'n ffurfio rhan o ACA Eryri) a'r asesiad o'r frân goesgoch a chen. Mae Uned Bioamrywiaeth Gwynedd a CNC wedi cadarnhau nad oes ganddynt wrthwynebiad i'r cynigion gan argymell anodau perthnasol yn ymwneud â chynllun hirdymor i fonitro'r ffrwd, gweithredu Cynllun Rheoli cen, amgáu'r ardaloedd sydd wedi'u adfer rhag da byw a monitro rhywogaethau ymledol.

6.4 Byddai'r amodau hyn yn sicrhau bod y bwriad yn cydymffurfio â pholisi AMG 5 y CDLL ar y Cyd a NCT 5, sef nad oes effaith andwyol ar fioamrywiaeth leol nac ar ddynodiad ACA Eryri.

6.5 Ni fyddai'r bwriad yn cael effaith sylweddol ar asedau treftadaeth nac ar ddynodiadau ac archeoleg, felly, mae'n cydymffurfio â pholisïau PS 20, AT1 ac AT 4 y CDLl ar y Cyd a CCA: Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

6.6 Ni fydd y datblygiad yn arwain at gynnydd mewn symudiadau traffig ac felly ni fydd yna fwy o effaith ar unrhyw briffordd, na phriffordd arfaethedig, oni bai am y cyfnod estynedig. Bydd hawliau tramwy cyhoeddus o Llandygai i'r llethrau uwchlaw'r chwarel yn cael eu sicrhau trwy ymestyn y cytundeb i'r llwybr caniataol rhwng y gweithredwr, y perchennog tir a'r Uned Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Felly, mae'r bwriad yn cydymffurfio gyda Pholisi TRA 4 y CDLL ar y Cyd.

6.7 Bydd gan y datblygiad effaith gadarnhaol fechan ar yr iaith Gymraeg trwy sicrhau a chynnal cyflogaeth yn lleol ac ystyrir bod y bwriad yn cydymffurfio â pholisi PS 1 y CDLl ar y Cyd.

6.8 Fel y trafodir uchod, mae'r datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio â'r holl bolisïau ac ystyriaethau cynllunio perthnasol ac argymhellir y dylid cymeradwyo'r cais cynllunio gydag amodau.

**7. Argymhelliad:**

7.1 Dirprwyo'r hawl i Bennaeth yr Adran Amgylchedd gymeradwyo'r cais, gydag amodau'n ymwneud â'r hyn a ganlyn:

- Hyd y cyfnod gweithio 31/12/2035 a'r cyfnod adfer hyd at 31/12/204.
- Gweithgareddau a ganiateir a chydymffurfiaeth â’r manylion/cynlluniau a gyflwynwyd (yn cynnwys ardal yr estyniad).

- Marcio ffin y safle ac ardaloedd cloddio am fwynau.
- Oriau Gweithio.
- Cyflwyno cais i ymestyn cyfnod cau a gwyro Hawliau Tramwy Cyhoeddus rhifau 46 a 50.
- Oriau Gweithio ar wyneb y gwaith,
- Dull gweithio a chyfyngiadau ffrwydro;
- Adferiad a chynllun creu ac adfer cynefinoedd manwl yn unol â manylion y cais,
- Cynllun adfer ar gyfer safle'r peiriannau erbyn 31 Rhagfyr 2035.
- Adolygiad bob pum mlynedd o'r gweithrediadau;
- Rheoli goleuo allanol;
- Rheoli cyfyngiadau sŵn ar gyfer y dydd a'r nos;
- Rheoli llwch a ryddheir a darparu/cynnal a chadw gorsaf dywydd;
- Priddoedd a storio cyfryngau adfer;
- Cyfyngu ar yr hawliau datblygu a ganiateir,
- Cyfyngu ar glirio llystyfiant ar adegau penodol o'r flwyddyn oni bai y gellir profi yn ysgrifenedig na fydd y gwaith yn amharu ar adar ac ymlusgiaid;
- Gwaith monitro cen wedi'i ddiweddaru,
- Cynllun rheoli cynefin gweundir ar gyfer yr ardal ddigolledu amgylcheddol yn unol â'r manylion a ddarparwyd,
- Cynllun monitro hirdymor ar gyfer y ffrwd.
- Monitro cynefinoedd Gwaen Gynfi,
- Cofnodi a lliniaru archeolegol;
- Gwarchod adar sy'n nythu.
- Cynllun rheoli cen.
- Mesurau diogelu ymlusgiaid.
- Atal da byw rhag cael mynediad i ardaloedd sydd wedi'u hadfer.
- Monitro rhywogaethau ymledol.